

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni 13eg o Orffennaf 2010.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair); D Martin Williams, Harry Wyn Owen – Talysarn; Barry Bracegirdle, Elwyn Jones-Griffith, Dyfed Edwards (Cyngor Sir); Ifan Glyn Jones – Penygroes; T Les Jones – Nantlle; Eurig Evans – Nebo; Richard Evans, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; OP Huws – Cyngor Sir.

Gwahoddwyd clwb ieuenctid **Iwth Pen** i'r cyfarfod, a chafwyd cyflwyniad gan Mr Ben Gregory ar weithgareddau'r Clwb Ieuenctid, llwyddiant y Clwb, a'r hyn sydd angen i'w redeg yn llwyddiannus. Wedyn, cafwyd sgwrs gan ddau aelod ifanc o'r clwb a dwy wirfoddolwraig, a chafwyd cyfle i glywed barn y bobl ifanc. Diolchwyd iddynt am ddod i'r cyfarfod, ac am y gwaith caled a'r ymroddiad maent yn ei roi i'r clwb. Cafwyd trafodaeth ar ol iddynt adael y cyfarfod – mae pawb yn y Dyffryn yn elwa o gael clwb ieuenctid mor llwyddiannus ym Mhenygroes, a phenderfynwyd rhoi cyfraniad o £500 iddynt.

Hefyd, gwahoddwyd **Gweithgor Glynllifon** i'r cyfarfod, a chafwyd cyflwyniad gan Mr Alun Lewis (Bic Innovations). Rhoddodd y Cyngor eu sylwadau fel a ganlyn, sef ei bod yn fwynhad i bobl leol fynd i ymweld a Glynllifon, a mae'n hanfodol gwarchod mynediad i'r cyhoedd. Mae Stad Glynllifon yn rhan o'n etifeddiaeth, ac mae'n hollol bwysig nad yw'r stad, na rhannau o'r stad yn cael ei werthu ymlaen ar unrhyw gyfrif.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- Bwlch Gwyn Nebo, Ystafell Haul.
- Tan y Ffordd, Clogwyn Melyn, Newid lleoliad a dyluniad modurdy dwbl eisioes wedi ei ganiatau.
- Victoria Hotel, Penygroes – Trosi tafarn gwag a llety cysylltiol i 5 fflat hunan-gynhaliol – Roedd pryder am y cais fel ag yr oedd. Dylid o leiaf gwneud y llawr isaf yn rhyw fath o ddefnydd masnachol e.e siop neu gaffi a fyddai o fudd i'r gymuned a'r ardal. Fel ag y mae, nid yw'r cynllun yn gweddu i'r adeilad, a roedd pryder am berygl y fynedfa, gan bod 8 o geir angen mynd allan o'r maes parcio i Stryd yr Wyddfa sydd yn stryd brysur ar y gorau. Hefyd, roedd pryder bod y safle biniau ysbwriel yn rhy amlwg ac yn rhy agos i'r stryd o ran cael llonydd a hefyd aroglau.
- Sunnyside, Tynyweirglodd, Penygroes – codi uchder to annedd presennol i greu llawr cyntaf ynghyd a chodi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo.
- Hafodlas, Talysarn – codi ports ar ochr eiddo, ail-doi adeilad allanol presennol.

Fe'n hysbyswyd gan Gyngor Gwynedd iddynt ganiatau ceisiadau cynllunio Cennin, 40 Ffordd y Sir, Penygroes; HG Motors, Penygroes; Clwb Pel Droed Dyffryn Nantlle, Penygroes; Bwlch Gwyn, Nebo; Safle Tirlenwi Cilgwyn; Bron Eryri, Penygroes.

Penderfynwyd holi am brisiau ffens newydd o amgylch cae chwarae Cwting ym Mhenygroes gan bod yr un bresennol wedi malu.

Roedd y Cyngor yn siomedig nad yw Cyngor Gwynedd am symud y ffin 30mya ar y ffordd i mewn i Benygroes o gyfeiriad Inigo Jones, ac hefyd yn siomedig y byddai costau i roi unrhyw arwydd rhyngweithiol yno yn cael ei roi drosodd i'r Cyngor Cymuned.

Adroddiadau Pentrefi.

Llanllyfni: Arosfan Bws Ffordd Rhedyw. Does dim man penodol i'r bws aros ar hyn o bryd gan nad oes marciau ar y lon. Mae'r Adran Briffyrdd yn gwneud arolwg ar hyn o bryd, a phenderfynodd y Cyngor Cymuned ar os i weld beth fydd eu penderfyniad. Byddwn yn ysgrifennu ar Adrian Williams, Cyngor Gwynedd i holi.

Nebo: Llwybr 68, pont wedi malu – yr afon yn bwyta i mewn i'r tir, a cherrig yn rhydd oddi tan yr hen bont lechan. Hefyd, does dim camfa nag adwy at y llwybr. Mae'n bwysig bod y llwybr cywir yn cael ei diffinio yn ol y map, a bod rhywbeth yn cael ei wneud i atal yr afon rhag erydu'r llwybr. Byddwn yn ysgrifennu at y Swyddog Llwybrau.

Talysarn: Llwybr Dorothea. Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad o'r sefyllfa.

Penygroes: Derbyniwyd cwyn bod Cyngor Gwynedd wedi torri'r gwellt dros y bont ar Ffordd Clynnog, a chwythu'r gwellt i un ochr oddi ar y lon a'i adael. Roedd y gwair wedi blocio draeniau/gwter a dwr wedi llifo i selar un ty. Byddwn yn ysgrifennu i ofyn iddyn nhw glirio ar eu holau tro nesaf; Derbyniwyd cais i gael o leiaf un ochr ar y lloches bws yn nhop Treddafydd er mwyn cael cysgod – byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Nantlle: Problem gyda llygod mawr yno, ac hefyd yn Talysarn. Byddwn yn cysylltu gyda'r swyddog o Gyngor Gwynedd..

Cystadleuaeth Arddio. Bydd yn noson wobrwyo yn cael ei chynnal yn y Neuadd Goffa, Penygroes ar nos Wener, Medi 24 am 7.00 yh.

Materion yn ymwneud a'r heddlu. Roedd y Cynghorwyr yn ddiolchgar iawn o'u presenoldeb yn ystod y ffair yn Llanllyfni, a'u cydweithrediad.